# Cynllun Gweithredu Llwybr Rhywogaethau Estron Prydain Fawr: Hamddena ar Gychod

**TERFYNOL**

**Medi 2020**

Pre-Consultation Draft

**Wedi'i ddrafftio a'i gefnogi gan (ymhlith eraill):**

## Cefndir

Mae lleihau'r risg a achosir gan lwybrau cyflwyno a lledaenu yn ffordd allweddol o fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr yn galw am ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Llwybrau ac maent hefyd yn un o ofynion Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a gedwir.
Gall Cynlluniau Gweithredu Llwybrau hefyd fod yn elfen o'r rhaglen o fesurau o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn un o gyfres o gynlluniau a fwriedir i fynd i'r afael â llwybrau cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron ym Mhrydain Fawr. Mae'r cynllun yn amlinellu'r polisi a dulliau gweithredu cyffredinol yn ogystal â'r camau i'w cymryd gan y llywodraeth a gweithredwyr eraill mewn perthynas â'r mater hwn.

## Cwmpas

Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn ar gyfer hamddena ar gychod, a ddiffinnir yn fras fel y defnydd o gychod a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer chwaraeon neu hamdden, boed hynny trwy hwyliau, rhwyfau, padlo a/neu bŵer. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddingis, cychod hwylio, cychod camlas, cychod dŵr personol (a elwir yn gyffredin yn "sgïau jet"), a chychod a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau padlo a rhwyfo. Mae'r trelars a'r offer cysylltiedig ar gyfer y mathau hyn o gychod wedi'u cynnwys. Nid yw'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn cynnwys llongau masnachol a'u balast. Felly, bwriedir i gyfeiriadau at 'gychod' yn y ddogfen hon gyfeirio at ystod eang o gychod, yn unol â'r diffiniad hwn.

Cwmpas daearyddol y Cynllun Gweithredu Llwybr yw Prydain Fawr.

Paratowyd y cynllun hwn gan weithgor (Gweithgor Cynllun Gweithredu Llwybr Cychod Prydain Fawr) a oedd yn adrodd i Fwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (gweler Atodiad 1 am aelodaeth).

Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn o reidrwydd yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i flaenoriaethu camau gweithredu ac yn canolbwyntio ar weithgareddau/sectorau allweddol o fewn hamddena ar gychod y mae bioddiogelwch yn arbennig o bwysig ar eu cyfer.

## Sail resymegol

Ar hyn o bryd, mae gennym tua 200 o rywogaethau dŵr croyw a morol estron wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr ac mae'r rhywogaethau hyn yn tueddu i fod yn arbennig o oresgynnol. Yn ystod y degawdau diwethaf, mae'r gyfradd cyrraedd wedi cyflymu – er enghraifft, mewn amgylcheddau lled hallt a dŵr croyw mae un rhywogaeth Ponto-Caspiaidd newydd yn sefydlu ym Mhrydain bob dwy i dair blynedd, o gymharu ag un bob 100 mlynedd cyn 1992. Mae'r rhywogaethau hyn yn cynnwys y berdysyn rheibus, y berdysyn cythreulig a'r gragen las ledresog. Mae llawer mwy o rywogaethau estron goresgynnol

Pre-Consultation Draft

dyfrol â'r potensial i gyrraedd a sefydlu ym Mhrydain Fawr, gan gynnwys planhigion sy'n gallu tagu llynnoedd a dyfrffyrdd dŵr croyw, rhywogaethau morol sy'n gallu baeddu cychod a sgriwiau gyrru, ac infertebratau dyfrol a all newid ecosystemau naturiol yn llwyr.

Mae'n anodd pennu'r llwybrau cyflwyno ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol dŵr croyw a morol sydd wedi'u cyflwyno i Brydain Fawr hyd yn hyn; fodd bynnag, nododd adolygiad o lwybrau a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect Porth Gwybodaeth Rhywogaethau Estron[1] dyfiant ar gyrff cychod fel llwybr cyflwyno posibl ar gyfer 12 o rywogaethau estron dŵr croyw sefydledig. Mae cyfran fawr iawn o'r rhain (58%) yn achosi effeithiau difrifol ym Mhrydain Fawr. Yn yr amgylchedd morol, nododd yr adolygiad hwn fod tyfiant ar gyrff cychod yn llwybr cyflwyno posibl ar gyfer 46 o rywogaethau estron sefydledig, yr oedd 26% ohonynt yn gysylltiedig ag effeithiau mwy difrifol.

Nid yw'r llwybr y gallai rhywogaethau estron goresgynnol ei ddefnyddio i gyrraedd ar gychod hamdden yn hysbys ychwaith i sicrwydd. O ran rhywogaethau dŵr croyw, awgrymodd astudiaeth fach ym mhorthladdoedd Prydain Fawr fod tua 14,000 o gychod hamdden (gan gynnwys canŵod/caiacau) yn cael eu cludo dros y tir i Brydain Fawr o dramor bob blwyddyn. Bydd llawer (y rhan fwyaf) o'r rhain yn gychod dŵr croyw, a allai o bosibl gludo organebau os na chânt eu gwirio, eu glanhau a'u sychu'n ofalus. Gall cychod hefyd hwylio'n uniongyrchol o leoliadau dŵr croyw ar gyfandir Ewrop i ddyfroedd croyw ym Mhrydain Fawr; fodd bynnag, credir mai risg fach yw hon o ystyried mai nifer cymharol fach o gychod sy'n gwneud y daith hon a bydd y cyfnod mewn dŵr hallt yn lleihau'r risg y bydd organebau'n aros ynghlwm. O ran rhywogaethau morol, credir mai'r brif risg yw cychod a hwyliwyd yn uniongyrchol o gyfandir Ewrop neu Iwerddon gyda thyfiant ynghlwm wrthynt. Fodd bynnag, gallai cychod morol sy'n cael eu mewnforio dros y tir a'u rhoi yn y dŵr fod yn risg hefyd. Er bod ansicrwydd ynghylch llwybrau cyflwyno, mae'r potensial profedig ar gyfer effeithiau negyddol gan rywogaethau estron goresgynnol yn golygu bod angen dull rhagofalus.

Mae bioddiogelwch da yn hanfodol i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron dyfrol. Ers 2011, mae Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr wedi bod yn rhedeg yr ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd *Edrych, Golchi, Sychu* gyda'r nod o wella bioddiogelwch ymhlith defnyddwyr dŵr. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrch ar y ffin, a ddechreuodd yn 2016 ac sydd wedi tyfu'n flynyddol ers hynny. Yn 2018, ehangwyd ymgyrch *Edrych, Golchi, Sychu* i Ogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.

Mae Cod Ymddygiad Ewropeaidd ar Hamddena ar Gychod sydd wedi'i ddatblygu o dan Gonfensiwn Bern ac mae'r maes hwn hefyd wedi'i gwmpasu gan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n darparu gwaharddiad cyffredinol ar ryddhau'r rhan fwyaf o rywogaethau estron anifeiliaid a llawer o blanhigion yn Lloegr a Chymru, a phob rhywogaeth estron yn yr Alban. Mae Gorchymyn

[1] Comprehensive_pathway_analysis_final_draft.pdf (nonnativespecies.org)



Pre-Consultation Draft

Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud â throseddau, cosbau, gorfodi a thrwyddedu er mwyn gweithredu rhai o ofynion Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a gedwir. Mae’r gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru a Lloegr a’r ardal forol alltraeth, ac o ran unrhyw ddarpariaeth sy’n gymwys mewn perthynas â rheolaethau ar fewnforion i mewn ac allforion o’r Deyrnas Unedig, ac unrhyw ddarpariaeth sy’n ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth o’r fath, i’r Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cael ei diwygio er mwyn darparu ar gyfer mesurau gorfodi a brys o dan y rheoliad a gedwir.
Ceir rhagor o fanylion am y fframwaith deddfwriaethol ar wefan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth yn unig yn ddigon i reoli a lleihau’r risg sy’n gysylltiedig â chyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'n gofyn am gydweithio a chydweithrediad gan bawb dan sylw: mae pob sector yn rhan o'r ateb ac yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoli rhywogaethau estron goresgynnol a gweithredu'r arferion bioddiogelwch gorau. Mae'r cynllun hwn yn nodi camau gweithredu ychwanegol i helpu i leihau'r risg o gyflwyno a symud rhywogaethau estron goresgynnol a achosir gan deithwyr cychod hamdden.

Mae gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Cychod wedi addasu cod ymddygiad Confensiwn Bern a'i deilwra i anghenion Prydain Fawr (Atodiad 2). Mae hefyd wedi datblygu a chytuno ar ganllawiau bioddiogelwch ar gyfer defnyddwyr cychod (Atodiad 3). Ei brif allbwn, fodd bynnag, fu cytuno ar gyfres o fesurau i godi ymwybyddiaeth ymhlith gweithredwyr allweddol yn y sector hwn ac i gryfhau'r mecanweithiau bioddiogelwch presennol. Amlinellir y camau hyn isod, a dyma brif gorff y cynllun gweithredu.

**Nodau ac amcanion**

Nod cyffredinol y Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yw lleihau’r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol gan ddefnyddwyr a darparwyr yn y sector hamddena ar gychod.

Amcanion penodol yw:

- Codi ymwybyddiaeth a hwyluso mabwysiadu arferion bioddiogelwch da ymhlith y sector hamddena ar gychod, yn enwedig ar safleoedd a digwyddiadau blaenoriaeth.
- Annog trefnwyr digwyddiadau a chlybiau i fabwysiadu arferion bioddiogelwch da.
- Annog perchnogion tir a rheolwyr cyfleusterau (e.e. gweithredwyr marina, pwyllgorau clwb, ac ati) i godi ymwybyddiaeth o fioddiogelwch ymhlith eu defnyddwyr a rhoi systemau ar waith i hwyluso bioddiogelwch da.
- Atgyfnerthu canllawiau bioddiogelwch ar gyfer hamddena ar gychod a hwyluso cynhyrchu canllawiau clir ac ymarferol lle bo angen.

Pre-Consultation Draft

- Nodi meysydd lle gallai ymchwil ychwanegol helpu i fireinio/gwella bioddiogelwch hamddena ar gychod (e.e. gwella dealltwriaeth o'r risg a'r mesurau bioddiogelwch mwyaf effeithiol).
- Parhau â gwaith y bartneriaeth a ddatblygwyd o dan y Cynllun Gweithredu Llwybr hwn, gyda chyfranwyr yn adrodd ar eu gweithredoedd i'r grŵp bob chwe mis.

**Blaenoriaethu camau gweithredu**

Er y dylai pob defnyddiwr a darparwr yn y sector hamddena ar gychod fod yn ymwybodol o fioddiogelwch da a'i roi ar waith, mae rhai gweithgareddau'n fwy tebygol o achosi risg o ran bioddiogelwch nag eraill. Er enghraifft, mae cychod a ddefnyddir dramor ac a gludir yn ôl i Brydain Fawr yn fwy tebygol o achosi risg o gyflwyniadau newydd na'r rhai a ddefnyddir yn unig o fewn Prydain Fawr, ac mae cychod sy'n cael eu symud yn rheolaidd rhwng cyrff dŵr Prydain Fawr yn fwy tebygol o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol na'r rhai a ddefnyddir ar un corff dŵr.

Roedd datblygiad y Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn cynnwys gwaith i nodi'r risgiau mwyaf a'r meysydd o weithgareddau cychod sydd angen y ffocws allweddol i ddechrau neu sydd angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth a dod o hyd i atebion bioddiogelwch. Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn darparu canllawiau bioddiogelwch eang a chamau gweithredu sy'n berthnasol i bob teithiwr cychod hamdden, ond mae hefyd yn canolbwyntio (i ddechrau) ar weithgareddau penodol a ystyrir yn flaenoriaeth. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cychod hamdden yn dod i mewn i Brydain Fawr o dramor.
- Cychod dŵr croyw (yn enwedig dingis, hwylfyrddau, cychod dŵr personol, canŵod a chaiacau) yn symud rhwng cyrff dŵr, yn enwedig y rhai sy'n symud rhwng dalgylchoedd sydd fel arall heb gysylltiad.
- Cychod sy'n defnyddio camlesi a dyfrffyrdd mewndirol eraill, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tynnu allan ac yn symud pellteroedd hir rhwng rhannau o'r rhwydwaith camlesi sydd fel arall heb gysylltiad, neu'n symud o safleoedd risg uchel.
- Cychod morol, yn enwedig y rhai sy'n symud pellteroedd hir neu'n cael eu tynnu allan o'r dŵr / eu rhoi i mewn i'r dŵr.

Cydnabu gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Cychod y gallai fod yn symlach mabwysiadu arferion bioddiogelwch da i rai sectorau nag i eraill. Yn benodol, gall fod yn anodd defnyddio gweithdrefnau Edrych, Golchi, Sychu ar gychod mawr sy'n cael eu cadw'n gyffredinol yn y dŵr (e.e. cychod camlas a chychod hwylio morol mawr). Mae'r Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn canolbwyntio ar gamau ymarferol y gellir eu cymryd i leihau'r risgiau mwyaf arwyddocaol.

**Gweithredwyr allweddol**

Pre-Consultation Draft

- Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr
- Asiantaeth yr Amgylchedd, y Sefydliad Rheoli Morol, Natural England, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, NatureScot, Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (yn enwedig rhannau sy'n rheoli mynediad i gyrff dŵr neu gyrff dŵr eu hunain)
- Cymdeithas Pysgodfeydd Mewndirol ac Awdurdodau Cadwraeth
- Cymdeithas Awdurdodau Mordwyo Mewndirol
- Canŵio Prydain
- British Marine
- Rhwyfo Prydain
- Glandŵr Cymru
- Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau porthladd a harbwr
- Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (gan gynnwys Cymdeithas Hwylio Frenhinol yr Alban, Cymdeithas Hwylio Frenhinol Lloegr a Chymdeithas Hwylio Frenhinol Cymru)
- Sail Scotland
- Camlesi'r Alban
- Cymdeithas Canŵio'r Alban
- Cymdeithas Rhwyfo Arfordirol yr Alban
- Rhwyfo'r Alban
- Sportscotland
- Y Bartneriaeth Awyr Agored
- Trefnwyr cystadlaethau cychod
- Manwerthwyr offer cychod
- Trefnwyr gwyliau cychod
- Awdurdodau lleol (sy'n rheoli llynnoedd cychod / afonydd)
- Marinas (DU, Ffrainc, ac ati)
- Clybiau hwylio/canŵio/caiacio/rhwyfo
- Cwmnïau dŵr a pherchnogion/rheolwyr asedau dŵr eraill

**Bioddiogelwch ar y ffin a chydweithrediad rhyngwladol**

*Cam gweithredu 1* (dŵr croyw)
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn goruchwylio'r gwaith o redeg ymgyrch bioddiogelwch ar y ffin, yn seiliedig ar fenter Edrych, Golchi, Sychu, gan ganolbwyntio ar y pwyntiau mynediad risg uchel i Brydain Fawr – yn bennaf fferïau (yn cario dingis, canŵod, caiacau, ac ati) i ac o Loegr a'r cyfandir agos.

*Cam gweithredu 2* (dŵr croyw)
Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu ym mhorthladdoedd Cymru sy'n cysylltu â Gweriniaeth Iwerddon. Bydd Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno negeseuon Edrych, Golchi, Sychu ar fferïau rhwng yr Alban ac Iwerddon.

Pre-Consultation Draft

*Cam gweithredu 3* (dŵr croyw)
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (ac Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig) yn sefydlu ac yn rhedeg grŵp Bioddiogelwch Dyfrol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i gytuno ar fesurau cydgysylltiedig, gan gynnwys gweithredu mewn porthladdoedd, yn Eurotunnel ac ar fferïau.

*Cam gweithredu 4* (dŵr croyw a morol)
Bydd yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn arwain ar gydgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ac aelod-wladwriaethau perthnasol yr UE i gytuno ar raglen weithredu sy'n ymwneud â bioddiogelwch dyfrol (a lledaeniad rhywogaethau Ponto-Caspiaidd). Bydd hon yn targedu:

- Teithwyr cychod cyfandirol yn dod i Brydain Fawr.
- Teithwyr cychod Prydain Fawr yn dychwelyd o'r cyfandir.
- Llongau morol yn hwylio i Brydain Fawr.

*Cam gweithredu 5* (dŵr croyw a morol)
Bydd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Canŵio Prydain, British Marine, Rhwyfo Prydain (ac eraill) yn hyrwyddo Cod Ymddygiad yr UE ac yn annog sefydliadau cychod aelod-wladwriaethau’r UE i fabwysiadu'r ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu.

Bioddiogelwch digwyddiadau

*Cam gweithredu 6* (dŵr croyw a morol)
Bydd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Canŵio Prydain, Rhwyfo Prydain a British Marine yn llunio rhestr flaenoriaeth o ddigwyddiadau/cystadlaethau yn flynyddol i’w targedu ar gyfer mesurau codi ymwybyddiaeth uwch, megis arddangosiadau bioddiogelwch ac ati. Bydd rhestrau ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer gweithgareddau dŵr croyw a morol a bydd y gweithgor yn cytuno arnynt.

> *Cam gweithredu 6A*
> Bydd trefnwyr/perchnogion perthnasol yn gweithredu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth uwch yn y safleoedd/digwyddiadau sydd wedi'u blaenoriaethu.

Bioddiogelwch defnyddwyr clybiau a chychod

*Cam gweithredu 7* (dŵr croyw a morol)
Bydd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Canŵio Prydain, Rhwyfo Prydain, British Marine a Glandŵr Cymru (ac eraill fel y bo'n berthnasol) yn lledaenu deunyddiau codi ymwybyddiaeth, gan anelu at gael posteri ym mhob clwb a chanolfan hyfforddi a negeseuon cyson mewn cylchgronau, post, cyfryngau cymdeithasol a deunyddiau cyfathrebu eraill.

*Cam gweithredu 8* (dŵr croyw a morol)
Bydd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Canŵio Prydain a Rhwyfo Prydain (ac eraill fel y bo’n berthnasol) yn annog pob clwb a chanolfan hyfforddi i

Pre-Consultation Draft

ychwanegu cymal bioddiogelwch (Atodiad 4) i'w cyfansoddiadau, systemau dyfarnu ac, yn ddelfrydol, unrhyw gytundebau contractiol eraill (e.e. cytundebau i ddefnyddio/cadw cychod). Gall hyn fod yn uniongyrchol, neu drwy gynnwys bioddiogelwch mewn cyfansoddiadau enghreifftiol a ddarperir i glybiau.

*Cam gweithredu 9* (dŵr croyw a morol)
Bydd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Canŵio Prydain, Rhwyfo Prydain a British Marine yn cynnwys bioddiogelwch mewn cwricwla hyfforddi ar gyfer defnydd sylfaenol o gychod a gweithredwyr marina, gan ddiweddaru deunyddiau hyfforddi pan fydd angen eu hadnewyddu. Yn ogystal, bydd bioddiogelwch yn cael ei gynnwys mewn sesiynau cynefino perthnasol (e.e. ar gyfer staff marina) ac ar adegau allweddol eraill (megis sesiynau sefydlu i'r rhai sy'n llogi cychod).

*Cam gweithredu 10* (dŵr croyw a morol)
Bydd gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Cychod (yn enwedig British Marine, yn gweithio gyda'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Glandŵr Cymru, Camlesi'r Alban, Canŵio Prydain ac eraill) yn nodi cwmnïau sy'n cludo cychod hamdden ac yn ceisio codi eu hymwybyddiaeth bod angen i gychod fod yn lân cyn eu cludo.

Bioddiogelwch safle

*Cam gweithredu 11* (dŵr croyw a morol)
Bydd cwmnïau dŵr, Glandŵr Cymru, Camlesi'r Alban, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, NatureScot, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystadau'r Goron yr Alban (a rheolwyr asedau dŵr eraill) yn cyfeirio at gynnal bioddiogelwch (e.e. Atodiad 5) yn eu cytundebau perthnasol (e.e. cytundebau prydlesu a rheoli, trwyddedau, caniatadau SoDdGA, ac ati) sy'n gysylltiedig â chychod wrth iddynt gael eu hadnewyddu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio is-ddeddfau ac ati i gyflwyno cymalau bioddiogelwch ar gyfer hamddena ar gychod lle bo'n berthnasol.

*Cam gweithredu 12* (dŵr croyw a morol)
Bydd British Marine yn annog pob marina i ychwanegu cymal bioddiogelwch (Atodiad 6) at eu cytundebau angori. Byddant hefyd yn annog marinas i beidio â chaniatáu i gychod sydd wedi'u baeddu'n drwm (h.y. mwy na haenen o lysnafedd) gael eu rhoi yn y dŵr. Os ydynt eisoes yn y dŵr ac wedi'u baeddu'n drwm, bydd marinas yn annog perchnogion cychod i godi a glanhau eu cychod.

> *Cam gweithredu 12A (dŵr croyw a morol)*
> Bydd British Marine yn annog marinas ac iardiau cychod i ddarparu systemau dal a hidlo addas mewn ardaloedd glanhau cyrff cychod a, lle nad oes cyfleusterau o'r fath ar gael, yn rhoi cyngor ar ddulliau syml o leihau'r risg o rywogaethau estron goresgynnol a llygryddion eraill yn mynd i mewn i gyrff dŵr wrth lanhau.

*Cam gweithredu 13* (dŵr croyw a morol)

Pre-Consultation Draft

Bydd British Marine, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Canŵio Prydain a'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun achredu ar gyfer gweithredwyr marinas sy'n dilyn arferion bioddiogelwch da, neu a fydd yn ychwanegu arferion rhywogaethau estron goresgynnol da at gynlluniau cydnabod amgylcheddol presennol.

*Cam gweithredu 14* (dŵr croyw a morol)
Bydd y gweithgor (sy'n cael ei arwain gan swyddogion ond yn gweithio gyda rhanddeiliaid) yn llunio ac yn cynnal rhestr o safleoedd/dyfrffyrdd sy'n cynnwys rhywogaethau estron goresgynnol critigol (ar lefel Prydain Fawr, lefel genedlaethol neu lefel ranbarthol) sy'n flaenoriaeth i gyfyngu/arafu eu lledaeniad (gweler Atodiad 7 ar gyfer rhestr rhywogaethau hanfodol Prydain Fawr) a lle mae hamddena ar gychod yn digwydd.

*Cam gweithredu 14A*
Bydd perchnogion a rheolwyr y safleoedd hyn yn gosod cyfleusterau ac arwyddion i hyrwyddo bioddiogelwch uchel iawn. Gallai hyn gynnwys:

- Un pwynt mynediad a gadael lle bo modd
- Llawr arwyneb caled addas (a storfa gychod) lle bo'n berthnasol / yn bosibl
- Cyfleusterau golchi dŵr poeth (gan gynnwys stêm) os yn bosibl (oer os nad ydyw)
- Arwyddion mawr amlwg
- Gweithredu is-ddeddfau bioddiogelwch lle bo modd

*Cam gweithredu 14B*
Bydd trefnwyr digwyddiadau cychod yn gweithredu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth uwch ac yn sicrhau bioddiogelwch llym yn y safleoedd blaenoriaeth.

*Cam gweithredu 14C*
Bydd Glandŵr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron yn nodi 'mannau cyfyng' yn y rhwydwaith camlesi y gellid canolbwyntio ymdrechion bioddiogelwch arnynt i leihau'r risg o ymlediad o Dde-ddwyrain Lloegr i weddill y rhwydwaith a gweithredu mesurau bioddiogelwch yn y mannau hyn.

*Cam gweithredu 15* (dŵr croyw a morol)
Bydd y Gymdeithas Hwylio Frenhinol a British Marine, gyda chymorth gan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron, yn darparu hyfforddiant bioddiogelwch ar y safle i weithredwyr marinas/harbwrs dŵr croyw a morol mewn meysydd blaenoriaeth uchel (h.y. y rhai a nodir yng ngham gweithredu 14).

*Cam gweithredu 16* (morol)
Yn Lloegr yn unig, bydd y Sefydliad Rheoli Morol yn rheoli glanhau cychod sydd wedi'u baeddu'n drymach yn y dŵr trwy drwyddedu morol (gan gynnwys defnyddio mesurau gorfodi). Mae glanhau cychod morol sydd wedi'u baeddu'n ysgafn iawn yn y dŵr wedi'i eithrio o'r gofyniad am drwydded forol (fel y nodir mewn deddfwriaeth: Adran 8.3
https://www.gov.uk/government/publications/marine-licensing-exempted-

Pre-Consultation Draft

activities/marine-licensing-exempted-activities--2). Mae’n bwysig nodi nad yw glanhau mewn dŵr wedi’i eithrio rhag trwyddedu yng Nghymru a’r Alban.

**Gofynion data a bylchau tystiolaeth**

Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Llwybr hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud â'r risg a berir gan gychod hamdden a mesurau lliniaru posibl. Fodd bynnag, mae bylchau yn ein gwybodaeth a gallai ymchwil bellach helpu i ddeall a thargedu camau gweithredu bioddiogelwch yn well. Mae gweithgor y Cynllun Gweithredu Llwybr ar gyfer Cychod yn dymuno tynnu sylw at fylchau tystiolaeth penodol y dylid eu hystyried yn flaenoriaeth:

1. Mae angen ymchwil i ddeall yn well pa gyfran o gychod dŵr croyw a allai fod wedi'u halogi gan rywogaethau estron goresgynnol hyfyw a ph'un a oes lefelau gwahanol o risg yn gysylltiedig â gwahanol fathau o longau, rhannau o longau neu weithgarwch.

2. Yn gysylltiedig ag (1), mae angen ymchwil i effeithiolrwydd ymgyrch Edrych, Glanhau a Sychu wrth gael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol hyfyw.

3. Mae bylchau o hyd yn ein dealltwriaeth o nifer y cychod (yn enwedig rhai dŵr croyw) sy'n mynd i ddyfroedd Prydain Fawr, o ble, a thrwy ba lwybr.

4. Nid yw'r graddau y mae llongau morol wedi'u baeddu yn cyrraedd Prydain Fawr wedi'u mesur. Byddai’n ddefnyddiol deall i ba raddau y mae hyn yn digwydd ac, yn bwysicach, o ble mae’r mwyafrif o longau sy’n cario rhywogaethau estron goresgynnol yn dod ac ym mha le maen nhw’n cyrraedd Prydain Fawr.

5. Ar gyfer llongau morol a chychod camlas, rhwystr mawr i fioddiogelwch da yw ymarferoldeb eu glanhau. Bydd ymchwil ac arloesi mewn dulliau gwell yn helpu i wella bioddiogelwch.

**Monitro a diweddaru**

Bydd y gweithgor yn cael ei ailgynnull gan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron bob chwe mis i asesu cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu ac adolygu'r cynllun. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob yn ail drwy delecon ac wyneb yn wyneb. Disgwylir i aelodau'r grŵp gyflwyno data ac ati ar gynnydd cyn pob cyfarfod lle bo hynny'n berthnasol / yn bosibl. Bydd y grŵp yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a bydd sefydliadau yn adrodd yn ôl ar yr holl gamau gweithredu y maent yn rhan ohonynt.

Bydd effaith ehangach y Cynllun Gweithredu Llwybr ar fioddiogelwch cychod hamdden yn cael ei mesur gan y canlynol:

Pre-Consultation Draft

- Nifer y sefydliadau/clybiau/awdurdodau/safleoedd sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo ymgyrch Edrych, Glanhau, Sychu.
- Newidiadau i ymwybyddiaeth sylfaenol a'r defnydd o fioddiogelwch ymhlith teithwyr cychod hamdden (yn dilyn yr arolwg o agweddau'r cyhoedd).

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 1.  Aelodau'r gweithgor**

Cymdeithas Hwylio Frenhinol (cadeirydd)
Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron (ysgrifennydd)
Anglian Water
Canŵio Prydain
British Marine
Rhwyfo Prydain
Glandŵr Cymru
Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Asiantaeth yr Amgylchedd
Sefydliad Rheoli Morol
Natural England
Cyfoeth Naturiol Cymru
Camlesi'r Alban
Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban
Llywodraeth yr Alban
NatureScot (Treftadaeth Naturiol yr Alban gynt)
The Green Blue
Llywodraeth Cymru

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 2.**

**Cod Ymddygiad**
**Hamddena ar Gychod a Rhywogaethau Estron Goresgynnol**

*Mae'r syniadau a thestunau ar gyfer y cod hwn yn deillio o God Ymddygiad Ewropeaidd Cyngor Ewrop ar Hamddena ar Gychod a Rhywogaethau Estron Goresgynnol ac maent wedi'u teilwra i weddu i ofynion Prydain Fawr. Mae'r cod wedi'i anelu'n bennaf at glybiau a sefydliadau cychod yn ogystal â rheolwyr a thirfeddianwyr safleoedd lle mae hamddena ar gychod yn digwydd.*

**Cefndir**

Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn blanhigion, anifeiliaid a chlefydau a gyflwynir gan bobl ac sy'n cael effaith negyddol. Maent yn un o'n bygythiadau amgylcheddol pwysicaf a gallant achosi difrod economaidd sylweddol ac effeithiau sylweddol ar iechyd pobl. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost i economi Prydain yw £1.7 biliwn y flwyddyn, gydag o leiaf £26.5 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario ym Mhrydain Fawr yn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol dŵr croyw yn unig (Oreska ac Aldridge, 2010; Williams ac eraill, 2010). Gallant achosi problemau i ddefnyddwyr cychod hamdden, gan ddifrodi offer, creu tyfiant ar adeileddau tanddwr, rhwystro mewnlifoedd dŵr, cynyddu costau cynnal a chadw, effeithio ar fordwyo, a lleihau mynediad i gyrff dŵr.

Mae mabwysiadu mesurau ataliol i osgoi cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol yn anfwriadol yn cael ei dderbyn yn eang fel y dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'u bygythiad. Mae Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE a Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain ill dau yn anelu at dargedu llwybrau cyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol, gan eu blaenoriaethu a rhoi mesurau ar waith i leihau cyfradd eu cyflwyno a'u sefydlu.

Mae hamddena ar gychod, a ddiffinnir yn fras fel defnyddio cychod a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer chwaraeon neu hamdden, yn llwybr posibl ar gyfer cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol dyfrol ym Mhrydain Fawr. Gyda dros dair miliwn o ddefnyddwyr cychod, mae risg sylweddol y gallai rhywogaethau estron goresgynnol gael eu cyflwyno i Brydain Fawr neu eu lledaenu o fewn Prydain Fawr ar gychod, trelars neu offer cychod. Rhagwelir, trwy addysg, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, y byddwn yn lleihau'r risg o gyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol trwy gychod hamdden a sicrhau bod cychod yn rhan o'r ateb, gan weithredu fel 'llygaid a chlustiau' a sylwi ar ymlediad rhywogaethau estron goresgynnol a rhoi gwybod amdanynt, yn ogystal â chymryd rhan yn eu rheolaeth a'u dileu.

Nod y cod ymddygiad hwn yw annog arferion effeithiol i atal symudiad rhywogaethau estron goresgynnol yn y dyfodol drwy weithgarwch hamddena ar gychod. Mae gan sefydliadau cychod a sefydliadau sy'n cynnal gweithgareddau cychod ar eu dyfroedd hefyd rôl bwysig i addysgu cychwyr am effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol a phwysigrwydd

Pre-Consultation Draft

bioddiogelwch. Nod yr argymhellion a amlinellir yma yw cynyddu ymgysylltiad sefydliadau cychod yn eu rôl o godi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol.

**Mesurau**

Mae'r cod hwn yn cynnwys gwahanol fesurau ar gyfer (1) clybiau a sefydliadau cychod, a (2) rheolwyr a thirfeddianwyr safleoedd lle ceir hamddena ar gychod, a nodir isod. Ym mhob achos, mae'r cod wedi'i rannu'n fesurau sylfaenol a awgrymir ac argymhellion mwy datblygedig i'w dilyn lle bo modd.

### (1) Clybiau a sefydliadau cychod

Yr isafswm a awgrymir:

- Asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a gyflawnir gan y clwb/sefydliad, gan gynnwys yr offer a ddefnyddir a'r safleoedd yr ymwelwyd â hwy.
- Hysbysu staff ac aelodau o'r risgiau a berir gan rywogaethau estron goresgynnol a'r angen am fioddiogelwch da.
- Darparu cyfleoedd hyfforddi bioddiogelwch i staff, aelodau ac eraill.
- Darparu offer bioddiogelwch digonol, gan gynnwys cyfleusterau glanhau ac ystafelloedd sychu.
- Cefnogi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i hysbysu pob cychwr am rywogaethau estron goresgynnol ac annog bioddiogelwch da (e.e. ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu, Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol), gan gynnwys darparu arwyddion ac arweiniad.
- Bod yn ymwybodol o a chydymffurfio â pholisïau, cyfreithiau ac is-ddeddfau perthnasol, e.e. y rhai sy'n ymwneud â chychod a/neu fioddiogelwch.

Lle bo modd:

- Penodi rheolwr/hyrwyddwr bioddiogelwch o fewn y sefydliad a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau bioddiogelwch yn cael eu gweithredu.
- Recriwtio gwirfoddolwyr neu aelodau staff i oruchwylio gweithdrefnau bioddiogelwch mewn cyfarfodydd, digwyddiadau ac ati.

### (2) Rheolwyr a thirfeddianwyr safleoedd lle ceir hamddena ar gychod

Yr isafswm a awgrymir:

- Asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a gyflawnir ar y safle, gan gynnwys llwybrau cyflwyno i mewn ac i ffwrdd o'r safle, pwyntiau mynediad, a'r offer a ddefnyddir.
- Datblygu cynllun bioddiogelwch i leihau risg, gan gynnwys cyfyngu ar bwyntiau mynediad, darparu cyfleusterau bioddiogelwch, codi ymwybyddiaeth, a gweithredu rheoliadau perthnasol.
- Hysbysu staff a defnyddwyr y safle o'r risgiau a achosir gan rywogaethau estron goresgynnol a'r angen am fioddiogelwch da, a gwybod beth i'w wneud / wrth bwy i adrodd os canfyddir rhywogaethau estron goresgynnol ar y safle.

Pre-Consultation Draft

- Darparu cyfleoedd hyfforddi bioddiogelwch i staff, aelodau ac eraill.
- Darparu offer bioddiogelwch digonol, gan gynnwys cyfleusterau glanhau ac ystafelloedd sychu.
- Cefnogi gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i hysbysu pob cychwr am rywogaethau estron goresgynnol ac annog bioddiogelwch da (e.e. ymgyrch Edrych, Golchi, Sychu, Wythnos Rhywogaethau Goresgynnol), gan gynnwys darparu arwyddion ac arweiniad.

Lle bo modd:

- Cyfyngu mynediad ac allanfa i'r dŵr, yn ddelfrydol i un man. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae rhywogaeth estron oresgynnol newydd wedi'i nodi ac argymhellir y dylai cychwyr fewngofnodi i'r safle ac allgofnodi ohono i gadarnhau eu bod wedi gwirio a glanhau eu dillad a'u hoffer i ganiatáu ynysu.
- Darparu cychod ac offer ar y safle a defnyddio'r rhain yn hytrach na chyfarpar personol sy'n dod i mewn oddi ar y safle.
- Darparu gorsafoedd bioddiogelwch / cyfleusterau glanhau. Ni ddylid cysylltu'r rhain â'r system ddraenio a dylid eu harchwilio'n rheolaidd.
- Penodi rheolwr/hyrwyddwr bioddiogelwch o fewn y sefydliad a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod mesurau bioddiogelwch yn cael eu gweithredu.
- Recriwtio gwirfoddolwyr neu aelodau staff i oruchwylio gweithdrefnau bioddiogelwch ar y safle.

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 3.** Canllawiau bioddiogelwch i ddefnyddwyr cychod

**Canllawiau bioddiogelwch i ddefnyddwyr cychod**

Tabl cynnwys


1. Cefndir ..... 17
2. Egwyddorion bioddiogelwch, sy'n berthnasol i bob defnyddiwr cychod hamdden ..... 17
3. Coeden benderfynu i helpu i nodi camau gweithredu bioddiogelwch 17
4. Gwiriad Edrych, Golchi, Sychu sylfaenol ar gyfer pob teithiwr cychod hamdden ..... 20
5. Canllawiau manwl ychwanegol i'r rhai sy'n cynghori defnyddwyr cychod ..... 21
6. Chwaraeon padlo a rhwyfwyr ..... 22
7. Cychod cul a chychod eraill sy'n defnyddio camlesi ..... 23
8. Triniaeth dŵr poeth ..... 23
9. Paent rhag tyfiant ..... 24
10. Glanhau llongau morol yn y dŵr ..... 25
11. Dolenni defnyddiol ..... 26


Pre-Consultation Draft

## 1. Cefndir

Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at hamddena ar gychod, a ddiffinnir yn fras fel defnyddio cychod a ddyluniwyd neu a addaswyd ar gyfer chwaraeon neu hamdden, boed trwy hwyl, rhwyfau, padlo a/neu bŵer. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddingis, cychod hwylio, cychod camlas, cychod dŵr personol (a elwir yn gyffredin yn “sgïau jet”), a chychod a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau padlo a rhwyfo. Mae'r trelars a'r offer cysylltiedig ar gyfer y mathau hyn o gychod wedi'u cynnwys. Nid yw'n cynnwys llongau masnachol a'u balast. Felly bwriedir cyfeirio at ‘gychod’ yma i gyfeirio at ystod eang o gychod, yn unol â'r diffiniad hwn.

Dylai pawb sy'n ymwneud â hamddena ar gychod ddilyn arferion bioddiogelwch da er mwyn osgoi cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Fodd bynnag, mae rhai gweithgareddau yn fwy tebygol o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol nag eraill. Mewn achosion o risg uwch, mae angen mesurau bioddiogelwch mwy cynhwysfawr. Efallai y bydd angen gwahanol fesurau bioddiogelwch hefyd yn dibynnu ar y cychod a'r gweithgareddau dan sylw. Nod y ddogfen hon yw darparu un testun sy’n dwyn ynghyd gyngor bioddiogelwch eang ar gyfer gwahanol weithgareddau, cychod a lefelau risg sy’n gysylltiedig â hamddena ar gychod.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at y rhai sy'n cynghori defnyddwyr cychod, ond gall defnyddwyr cychod eu hunain eu dilyn hefyd. Gellir eu haddasu/ymhelaethu os oes angen i weddu i angen neu weithgaredd penodol cyn belled â bod hyn yn cefnogi egwyddorion sylfaenol bioddiogelwch.

Lluniwyd y canllawiau hyn gan Weithgor Cynllun Gweithredu Llwybr Hamddena ar Gychod Prydain Fawr.

## 2. Egwyddorion bioddiogelwch, sy'n berthnasol i bob defnyddiwr cychod hamdden

Dylai cychod hamdden sy'n cael eu symud rhwng cyrff dŵr, neu eu hwylio i ddarnau newydd o ddŵr, fod yn rhydd o ddeunydd hyfyw (e.e. hadau, darnau o blanhigion / darnau algaidd, wyau, larfau, anifeiliaid) a allai gyflwyno rhywogaeth estron. Yn ymarferol, gall y rhain fod yn fach iawn (weithiau ddim yn weladwy i’r llygad noeth), felly dylai defnyddwyr cychod a darparwyr masnachol sicrhau nad oes unrhyw ddeunydd organig gweladwy neu ddŵr yn cael ei symud gyda’r cwch a bod y cwch yn cael ei wirio, ei lanhau a’i sychu (lle bo'n ymarferol) rhwng symudiadau. Er bod bioddiogelwch yn bwysig ar gyfer pob symudiad cychod hamdden, mae'n arbennig o bwysig wrth ddod â chwch i mewn i Brydain Fawr o dramor neu wrth symud cwch rhwng cyrff dŵr digyswllt a rhanbarthau arfordirol.

## 3. Coeden benderfynu i helpu i nodi camau gweithredu bioddiogelwch

Mae'r diagram atodedig yn darparu canllaw cyfeirio cyflym i ba gamau bioddiogelwch y dylid eu cymryd mewn gwahanol senarios, gan gydnabod y gallai rhai gweithgareddau fod yn gysylltiedig â risg uwch i fioddiogelwch ac y gallai'r gallu i roi camau bioddiogelwch ar waith amrywio rhwng

Pre-Consultation Draft

gweithgareddau. Mae'r diagram hwn yn nodi'r camau y dylid eu cymryd, a darperir canllawiau ar wahân isod.

Pre-Consultation Draft

Ydych chi'n dod â chwch i mewn i Brydain Fawr neu'n ei symud o fewn Prydain Fawr?

**Dod i Brydain Fawr**

EGWYDDOR: dylai eich cwch ac offer fod yn rhydd o unrhyw falurion neu organebau pan fydd yn cyrraedd Prydain Fawr

Sut ydych chi'n dod â'r cwch i Brydain Fawr?

**Dros y tir**

CAM GWEITHREDU: dilynwch egwyddorion Edrych, Golchi, Sychu ar gyfer eich cwch cyn dod i mewn i Brydain Fawr

BYDDWCH YN YMWYBODOL: efallai y bydd eich cwch yn cael ei archwilio ar y ffin

BYDDWCH YN YMWYBODOL: efallai y bydd gofyn i chi lanhau eich cwch eto cyn ei roi yn y dŵr ym Mhrydain Fawr

**Ar y môr**

Cyn cyrraedd Prydain Fawr, archwiliwch eich cwch. Faint o dyfiant sydd ar gorff y cwch? *

- Dim neu haenen o lysnafedd: CAM GWEITHREDU: os oes haenen o lysnafedd, ystyriwch godi a glanhau eich cwch neu ei lanhau yn y dŵr** cyn i chi gyrraedd Prydain Fawr
- Mwy na haenen o lysnafedd: CAM GWEITHREDU: dylech godi a glanhau eich cwch cyn cyrraedd Prydain Fawr

BYDDWCH YN YMWYBODOL: efallai y bydd eich cwch yn cael ei archwilio wrth gyrraedd marina Prydain Fawr.

**Symud o fewn Prydain Fawr**

EGWYDDOR: dylai eich cwch fod yn rhydd o unrhyw falurion neu organebau wrth symud i gyrff newydd o ddŵr (yn enwedig dalgylchoedd dŵr, harbwrs neu farinas newydd)

Ydych chi bob amser yn defnyddio'ch cwch yn yr un corff dŵr / darn o ddŵr?

**Ydw**

Nid oes angen unrhyw gamau bioddiogelwch penodol

**Nac ydw**

Sut ydych chi'n symud eich cwch?

*Dros y tir*

CAM GWEITHREDU: dilynwch egwyddorion Edrych, Golchi, Sychu ar gyfer eich cwch cyn gynted â phosibl unwaith y bydd allan o'r dŵr

*Ar y dŵr (h.y. hwylio / trwy rwydwaith camlesi / neidio rhwng arfordiroedd)*

Cyn teithio, archwiliwch eich cwch. Faint o dyfiant sydd ar gorff y cwch? *

- Dim neu haenen o lysnafedd: CAM GWEITHREDU: os oes haenen o lysnafedd, ystyriwch godi a glanhau eich cwch neu ei lanhau yn y dŵr**
- Mwy na haenen o lysnafedd: CAM GWEITHREDU: dylech godi a glanhau eich cwch cyn ei symud

Awgrym: bydd gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn lleihau'r risg o dyfiant trwchus

* Dim ond yn Lloegr (o dan amodau llym) y caniateir glanhau yn y dŵr; nid yw'n cael ei ganiatáu yng Nghymru na'r Alban

## 4. Gwiriad Edrych, Golchi, Sychu sylfaenol ar gyfer pob teithiwr cychod hamdden

Wrth symud rhwng cyrff dŵr neu ddarnau newydd o ddŵr dros y tir, dylai defnyddwyr cychod hamdden ddilyn egwyddorion Edrych, Golchi a Sychu:

- Edrych
  - Gwiriwch gychod, offer a dillad ar ôl gadael y dŵr am fwd, anifeiliaid dyfrol neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth rydych chi'n dod o hyd iddo a'i adael ar y safle.

- Golchi
  - Glanhewch bopeth sydd wedi dod i gysylltiad â'r dŵr yn drylwyr cyn gynted ag y gallwch, gan roi sylw i raffau, gwaelodion y cwch, trelars, angorau, injans, a mannau sy'n llaith ac yn anodd eu cyrraedd. Defnyddiwch ddŵr poeth os gallwch chi (gweler "triniaeth dŵr poeth" isod).

- Sychu
  - Draeniwch ddŵr o bob rhan o'ch cwch a'ch trelar cyn gadael y safle. Sychwch bopeth cyn hired â phosibl cyn ei ddefnyddio mewn mannau eraill oherwydd gall rhai planhigion ac anifeiliaid goresgynnol oroesi am bythefnos mewn amodau llaith.

Dylai pob perchennog cychod hamdden hefyd wneud y canlynol:

- Ceisio osgoi hwylio neu badlo trwy ddarnau o chwyn (a allai gynnwys rhywogaethau goresgynnol). Gall hyn dorri planhigion a'u lledaenu ymhellach.

- Bod yn ymwybodol o'r risg gynyddol o ddod â chychod, trelars ac offer i Brydain Fawr o dramor.

- Bod yn ymwybodol o'r risg gynyddol wrth osod cwch mewn corff dŵr sydd ag ecoleg arbennig o sensitif, megis gwarchodfa natur, Ardal Cadwraeth Arbennig, neu Ardal Forol Warchodedig.

- Bod yn gyfarwydd ag is-ddeddfau lleol sy'n ymwneud â bioddiogelwch.

Mae adnoddau defnyddiol, gan gynnwys fideos cyfarwyddiadol ar gyfer cychod pŵer, dingis, hwylfyrddau a chychod dŵr personol ar gael yn: http://www.nonnativespecies.org/checkcleandry/index.cfm

Pre-Consultation Draft

## 5. Canllawiau manwl ychwanegol i'r rhai sy'n cynghori defnyddwyr cychod

Cyn ei ddefnyddio:

- Gall system briodol o haenau paent rhag tyfiant a gwaith cynnal a chadw da helpu i atal biodyfiant rhag cronni (gweler adran 9 am fanylion).

- Dylid defnyddio cychod yn rheolaidd i leihau'r risg o fiodyfiant ar gorff y cwch a'r injan. Os nad ydych wedi defnyddio'ch cwch ers tro, codwch ef a'i lanhau cyn i chi symud i ddarn newydd o ddŵr. Os ydych chi'n gwybod na fyddwch chi'n defnyddio'ch cwch am gyfnod, ystyriwch ei dynnu allan a'i storio'n sych.

- Yn yr amgylchedd morol, gallwch ystyried glanhau eich cwch yn y dŵr os yw wedi'i faeddu'n ysgafn yn unig (h.y. haenen o lysnafedd neu lai). Gweler y canllawiau glanhau mewn dŵr isod (adran 10) a'r goeden benderfynu uchod. Sylwer: dim ond yn Lloegr y caniateir glanhau mewn dŵr, a dim ond ar gyfer tyfiant ysgafn (haen o lysnafedd neu lai). Dylid codi a glanhau cychod yng Nghymru a'r Alban (gweler adran 10 am fanylion).

Ar y dŵr:

- Os nad yw'r cwch yn cael ei ddefnyddio ac yn llonydd am gyfnod o amser, os yw'n bosibl, codwch y sgriwiau gyrru (moduron allanol) allan o'r dŵr i leihau'r risg o rywogaethau estron goresgynnol yn mynd i mewn i'r injan.

- Os oes angor wedi'i ddefnyddio, golchwch yr angor a'r gadwyn cyn eu storio.

- Mae unrhyw adeileddau neu offer fel pontynau, pentyrrau a bwiau sydd wedi bod dan ddŵr ers tro hefyd yn peri risg uwch o ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol ac felly dylid bod yn ofalus wrth weithio gyda nhw i osgoi lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Byddai hyn yn cynnwys eu tynnu allan o'r dŵr i'w glanhau cyn cael eu symud i safle newydd.

Ar ôl ei ddefnyddio:

- Unwaith y bydd y cwch ar y lan, tynnwch yr holl ddeunydd planhigion ac anifeiliaid gweladwy a'i roi yn y bin.

- Defnyddiwch ddŵr glân i olchi pob rhan o'r cwch sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r dŵr (gan gynnwys yr allfwrdd, trelar a throli / olwynion cerbydau). Rhowch sylw i unrhyw holltau. Golchwch injans allfwrdd â dŵr glân cyn

Pre-Consultation Draft

gadael y safle gan ddefnyddio offer priodol, sef mhyffiau fflysio, yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

- Draeniwch yr holl ddŵr o'r cwch, gan gynnwys y gwaelodion. Gadewch i'r dŵr ddraenio'n gyfan gwbl o'r injans trwy eu gosod mewn safle fertigol i lawr.

- Golchwch a sychwch yr holl offer, dillad ac esgidiau. Mae sychu cyhyd â phosibl yn bwysig oherwydd gall rhai rhywogaethau estron goresgynnol oroesi am dros bythefnos mewn amodau llaith.

- Os nad oes cyfleusterau golchi dŵr glân ar gael ar y safle, sicrhewch fod y cwch yn cael ei olchi, ei ddraenio a'i sychu cyn cyrraedd corff dŵr arall.

- Sicrhewch nad yw unrhyw ddŵr ffo golchi neu ddŵr sy'n cael ei wagio o gychod ar ôl eu defnyddio yn draenio i gorff dŵr arall.

Storio cychod ar y tir:

- Storiwch gychod ac injans allfwrdd mewn lleoliad lle nad yw unrhyw ddŵr ffo yn draenio i gorff dŵr (e.e. draeniau, gylïau neu afonydd).

- Dychwelwch unrhyw beiriannau i'w safle fertigol i lawr i ddraenio.

- Defnyddiwch y bin gwastraff cyffredinol i waredu unrhyw ddeunydd planhigion neu anifeiliaid a geir mewn bagiau propiau neu offer eraill.

## 6. Chwaraeon padlo a rhwyfwyr

Mae'r cyngor bioddiogelwch sylfaenol uchod, yn ogystal â rhai o'r canllawiau manwl ychwanegol, yn berthnasol i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon padlo.

Yn ogystal, wrth lanhau cychod, dylai padlwyr a rhwyfwyr roi sylw arbennig i ben blaen a phen ôl y cwch, o dan y seddi a'r ymylon, a thu ôl i fagiau hynofedd a stolion traed.

Gellir defnyddio tywel neu sbwng i sychu cit, ond bydd angen eu golchi ar ôl eu defnyddio (oni bai y gallwch eu sychu'n iawn rhwng defnyddiau). Efallai y bydd angen i chi feddwl am ffyrdd arloesol o gyrraedd tu mewn i ben eich cwch ond mae'n bwysig gwneud hynny.

Wrth lanhau offer, rhowch sylw arbennig i blygiadau cotiau glaw, siwtiau sych, cymhorthion hynofedd, deciau chwistrellu, llinellau taflu, a'r dillad rydych chi'n eu gwisgo o dan eich cot law.

Anogwch bob cyd-badlwr i ddilyn arferion bioddiogelwch da.

Pre-Consultation Draft

## 7. Cychod cul a chychod eraill sy'n defnyddio camlesi

Mae llawer o fathau o gychod yn defnyddio camlesi, a dylai pob un ohonynt ymdrechu i gymhwyso cymaint o'r mesurau bioddiogelwch sylfaenol a manwl â phosibl.

Yn ogystal, ar gyfer cychod sy'n cael eu tynnu o'r dŵr:

- Defnyddiwch y mesurau Edrych, Golchi, Sychu sylfaenol uchod, gan roi sylw arbennig i ffenders, propiau, a'r ymyl o gwmpas cwch.
- Gwnewch yn siŵr bod y cwch yn rhydd o unrhyw ddeunydd organig cyn cael ei roi yn ôl yn y dŵr.

Cychod yn aros yn y rhwydwaith dyfrffyrdd mewndirol am gyfnodau hir:

- Ceisiwch osgoi mynd â'ch cwch drwy ddarnau o chwyn, a allai eu lledaenu ymhellach drwy'r rhwydwaith camlesi.
- Os oes gan eich cwch fwy na haenen o lysnafedd o fiodyfiant, yn ddelfrydol dylid ei godi allan o'r dŵr a'i lanhau cyn ei symud i rywle arall.
- Defnyddiwch hyrddiau byr rheolaidd o wthiad gwrthdro pan fyddwch yn teithio i daflu a dadlapio unrhyw chwyn sy'n cael ei ddal o amgylch y prop.
- Cynhaliwch archwiliad gweledol o bryd i'w gilydd i weld p'un a ellir gweld unrhyw chwyn wedi'i ddal ar ffenders neu drawslathau er enghraifft.
- Os oes gan eich cwch injan fewnfwrdd, gwiriwch unrhyw ffilterau chwyn neu hidlyddion a chliriwch nhw'n rheolaidd.
- Os yw'r cwch yn gwch cul, codwch a gwiriwch am chwyn drwy'r gorddrws chwyn lle mae wedi'i ffitio a phan fo'n ddiogel gwneud hynny.

Pre-Consultation Draft

## 8. Triniaeth dŵr poeth

Lle bo modd, gall defnyddio dŵr poeth fod yn ddull syml, cyflym ac effeithiol o lanhau offer.

Gall trochi offer am tua 15 munud ar dymheredd o tua 45°C fod yn ffordd effeithiol o ladd nifer o rywogaethau estron goresgynnol dyfrol arwyddocaol.

Mae'r dechneg hon yn ddefnyddiol i gyfranogwyr a allai fod yn glanhau offer fel siwtiau gwlyb pan fyddant yn dychwelyd adref, ond nid yw'n ymarferol glanhau offer mawr fel cychod.

Os oes dŵr poeth ar gael ar y safle, gall peiriannau golchi pwysedd poeth fod yn effeithiol hefyd ar gyfer glanhau cyrff cychod. Nid argymhellir defnyddio cemegau gan nad yw pob cynnyrch yn gweithio ar bob rhywogaeth.

## 9. Paent rhag tyfiant

System briodol o haenau paent rhag tyfiant a gwaith cynnal a chadw da yw'r ffordd orau o atal unrhyw fiodyfiant rhag cronni ar gyfer cychod a gedwir yn y dŵr.

Mae codi, glanhau a chymhwyso paent rhag tyfiant yn flynyddol yn cadw cyrff cychod yn lân, ac mae iddo fanteision amgylcheddol, gan gynnwys atal lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol a hefyd gwella effeithlonrwydd tanwydd.

Mae systemau haenau paent rhag tyfiant gwahanol yn gweddu i broffiliau gweithredu gwahanol. Dylid dewis paent rhag tyfiant priodol trwy geisio cyngor arbenigol ac ystyried y cyfnod o amser rhwng haenau, y math o gwch a'i leoliad a'r hyn y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, ac unrhyw ofynion cyfreithiol yn y wlad y caiff ei ddefnyddio.

Mae'n bwysig nodi efallai na fydd paent rhag tyfiant yn effeithiol yn erbyn pob rhywogaeth ym mhob ardal – er enghraifft, credir bod rhai mathau o baent rhag tyfiant yn aneffeithiol yn erbyn biodyfiant gan gregyn gleision rhesog.

Felly, dylid cyfuno paent rhag tyfiant priodol â gwaith cynnal a chadw da, glanhau yn y dŵr (yn Lloegr), a'r dull Edrych, Golchi, Sychu lle bo modd. Po fwyaf y defnyddir cwch, y lleiaf tebygol y bydd rhywogaethau'n cronni a'r mwyaf effeithiol fydd unrhyw baent rhag tyfiant. Trwy ddefnyddio'r cwch yn rheolaidd dros yr haf / tymor tyfu, gellir lleihau lefel y tyfiant.

Mae paent rhag tyfiant, yn ôl ei natur, yn wenwynig i fywyd dyfrol. Ers gwahardd tribiwtyltin (TBT), mae'r rhan fwyaf o baentiau rhag tyfiant bellach yn seiliedig ar gopr neu sinc. Mae bioladdwyr sydd ar gael yn cael eu rheoleiddio gan reoliadau Ewropeaidd a chenedlaethol; fodd bynnag, wrth werthuso'r cynhyrchion hyn, dylid cydbwyso eu gwenwyndra â'u heffeithiolrwydd yn erbyn biodyfiant, yn enwedig gan rywogaethau estron goresgynnol dyfrol.

Gall rhai o'r cyfansoddion a geir yn y paentiau rhag tyfiant hyn fynd i mewn i'r amgylchedd trwy drwytholchi neu wrth dynnu'r paent, gan gronni mewn organebau, ffurfio dyddodion crynodedig yn y gwaddodion, ac yn y pen draw cyrraedd bywyd gwyllt ymhellach i fyny'r gadwyn fwyd. Gall perchnogion cychod chwarae rhan hanfodol wrth atal crafiadau dwys rhag mynd i mewn i'r dŵr trwy ddilyn y cyngor arferion gorau hwn:

*Wrth dynnu paentiau rhag tyfiant:*

Pre-Consultation Draft

- Dewiswch farina, clwb neu iard gychod sydd â chyfleuster golchi sy'n casglu gweddillion ac yn dal dŵr ffo o olchi, neu ataliwch grafiadau paent rhag tyfiant rhag mynd i mewn i'r dŵr trwy eu casglu mewn tarpolin.

- Defnyddiwch beiriant sandio sugnwr di-lwch neu sgraffiniad gwlyb i leihau llwch gwenwynig ac i amddiffyn iechyd y defnyddiwr.

- Os ydych chi'n defnyddio pentyrrau sgwrio, sgrwbiwch y tyfiant ac nid y paent gwaelodol i ffwrdd yn unig – byddwch yn ofalus i beidio â gadael i hen baent neu baent newydd fynd i mewn i'r dŵr.

*Wrth gymhwyso paent rhag tyfiant:*

- Dewiswch y math cywir o baent rhag tyfiant ar gyfer yr ardal a defnydd y cwch, gan ddewis y lefelau isaf o fioladdwyr a chopr sy'n addas ar gyfer eich anghenion – mynnwch gyngor gan y siop gêr môr leol. Defnyddiwch baent dŵr lle bo modd, neu baent yn isel mewn cyfansoddion organig anweddol, neu ystyriwch ddefnyddio paent gwaelod llai niweidiol, fel finyl, silicon neu tefflon, sy'n addas ar gyfer systemau glanhau cyrff cychod mewn dŵr.

- Rhowch y swm cywir o baent rhag tyfiant sydd ei angen a pheidiwch â'i ollwng – wrth ei ychwanegu, defnyddiwch gynfas i gasglu diferion.

- Ar ôl eu defnyddio, gwaredwch ar frwshys, rholeri, a hambyrddau a chaniau gwag paent rhag tyfiant fel gwastraff peryglus.

## 10. Glanhau llongau morol yn y dŵr (gweler y goeden benderfynu uchod hefyd)

Mae bob amser yn well glanhau cychod allan o'r dŵr lle gellir dal gwastraff yn effeithiol i'w waredu'n briodol.

Fodd bynnag, yn Lloegr yn unig, gellir defnyddio glanhau mewn dŵr hefyd fel mesur dros dro i gael gwared ar dyfiant ysgafn. Yn yr achos hwn, dim ond â llaw y gellir glanhau gan ddefnyddio offer penodol (a nodir isod).

Ni chaniateir glanhau yn y dŵr yn yr Alban na Chymru.

Caniateir glanhau mewn dŵr yn Lloegr oherwydd ei fod wedi'i wneud yn weithgaredd esempt gan Erthygl 27A o Orchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Diwygio) 2019. O'r herwydd, ni ellir symud tyfiant ond o'r rhan honno o gorff cwch sydd fel arfer dan ddŵr, yn ddarostyngedig i'r amod bod y sylwedd yn cael ei dynnu â llaw, gan ddefnyddio dim ond (a) lliain meddal; (b) sbwng; (c) blew brwsh meddal; (ch) papur tywod, y mae ei faint graen yn P2000 o leiaf. Gweler ISO 6344-3:2021, sy'n gosod safonau ar gyfer pennu dosbarthiad maint graen mewn perthynas â sgraffinyddion wedi'u gorchuddio. Mae hwn ar gael yn https://www.iso.org/standard/78219.html ac mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a

Pre-Consultation Draft

Materion Gwledig, Seacole Building, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF, y Deyrnas Unedig.

Gall glanhau yn y dŵr fod yn addas, a dim ond ar gyfer cael gwared â thyfiant golau y caniateir hynny, yn bennaf os yw'r cwch wedi bod yn y dŵr am lai na blwyddyn ond nad yw wedi'i ddefnyddio'n aml ac felly efallai ei fod wedi cronni tyfiant ysgafn.

Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i lanhau mewn dŵr cyn teithiau pellter hir os nad yw'n bosibl glanhau allan o'r dŵr. Bydd hyn yn helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag cael eu trosglwyddo'n bell, er enghraifft o un wlad i'r llall.

Cyn ymgymryd ag unrhyw waith glanhau yn y dŵr, gwiriwch â'r awdurdodau lleol am unrhyw reoliadau ynghylch glanhau cyrff cychod yn y dŵr a/neu ollwng cemegau i'r golofn ddŵr. Mae systemau glanhau yn y dŵr ar gael mewn rhai marinas, neu gellir cynnal y broses â llaw:

- Defnyddiwch dechnegau ysgafn i leihau faint o sylweddau gwenwynig sy'n cael eu rhyddhau o unrhyw baent rhag tyfiant ac atal y system haenau paent rhag tyfiant rhag diraddio.
- Byddwch yn ofalus i beidio â disbyddu'r system haenau paent rhag tyfiant, a fyddai wedyn yn aildyfu'n gyflym. Ni ddylid defnyddio glanhau mewn dŵr er mwyn gohirio'r broses gludo allan o'r dŵr y tu hwnt i oes gwasanaeth benodedig haen o baent.
- Gellir defnyddio lliain meddal, sbwng neu bapur tywod (y mae ei faint graen yn P2000 o leiaf) i lanhau cymaint o ddeunydd â phosibl. Fel arall, defnyddiwch frwsh meddal â llaw hir o'r pontŵn neu'r cwch i lanhau'r deunydd.
- Casglwch y deunydd mewn bwced neu fag i'w waredu ar dir lle bo hynny'n ymarferol.

## 11. Dolenni defnyddiol

| Gweithgaredd | Dolen |
|---|---|
| Canllawiau i deithwyr cychod | https://www.nonnativespecies.org/what-can-i-do/check-clean-dry/boaters/<br><br>https://www.rya.org.uk/knowledge/environment/invasive-non-native-species |
| Canllawiau i badlwyr | https://www.nonnativespecies.org/what-can-i-do/check-clean-dry/paddlers/<br><br>https://gopaddling.info/how-to-clean-your-kayak-or-sup-and-stop-the-spread/ |

Pre-Consultation Draft

| | |
|---|---|
| Canllawiau ar ddefnyddio paent rhag tyfiant | https://www.rya.org.uk/knowledge/environment/antifouling |
| Canllawiau i glybiau a rheolwyr tir | https://www.nonnativespecies.org/what-can-i-do/check-clean-dry/clubs-and-managers-of-water-bodies/<br><br>https://thegreenblue.org.uk/clubs-centres-associations/facilities-operations/biosecurity/ |
| Bioddiogelwch morol | https://www.nonnativespecies.org/biosecurity/marine-biosecurity/ |
| Canllawiau cyffredinol ychwanegol | Canllawiau'r Sefydliad Morol Rhyngwladol ar Reoli Biodyfiant ar Longau i Leihau Trosglwyddiad Rhywogaethau Dyfrol Goresgynnol (2011)<br>https://wwwcdn.imo.org/localresources/en/KnowledgeCentre/IndexofIMOResolutions/MEPCDocuments/MEPC.378%2880%29.pdf<br><br>Confensiwn Bern: Cod Ymddygiad Ewropeaidd ar Gychod Hamdden a Rhywogaethau Estron Goresgynnol<br>https://wcd.coe.int/ViewDoc.jsp?p=&id=2442263&Site=&BackColorInternet=B9BDEE&BackColorIntranet=FFCD4F&BackColorLogged=FFC679&direct=true<br><br>Rheoliadau glanhau mewn dŵr yn Lloegr, adran 8.3<br>https://www.gov.uk/government/publications/marine-licensing-exempted-activities/marine-licensing-exempted-activities--2 |

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 4.** Cymal bioddiogelwch ar gyfer cyfansoddiadau clybiau

**BIODDIOGELWCH**

Gofynnir i aelodau'r clwb ddilyn arferion bioddiogelwch da wrth ddefnyddio eu hoffer. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

Sicrhau bod eich offer, gan gynnwys cychod, trelars a dillad, yn lân ac yn rhydd o unrhyw fwd, deunydd planhigion neu ddŵr cronnus cyn cyrraedd y safle.

Ar ôl pob defnydd, glanhau eich cychod, trelars, dillad ac offer eraill yn unol â chanllawiau Edrych, Golchi, Sychu. Dylid rhoi gofal arbennig i fannau lle gall dŵr gronni neu gael ei ddal, gan gynnwys o fewn elfennau gwag trelars ac injans allfwrdd (os cânt eu defnyddio).

Gofynnir i unrhyw ymwelwyr â'r clwb ddilyn yr un canllawiau Edrych, Golchi, Sychu.

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 5.** Enghraifft o fioddiogelwch wedi'i chynnwys mewn is-ddeddf/cytundeb gyda theithwyr cychod

**Dyfyniad o:**

DEDDF DIWYDIANT DŴR ANGLIAN WATER SERVICES LIMITED 1991 –

IS-DDEDDFAU PARCIAU DŴR 2014

CYCHOD a DEFNYDDIO CYCHOD

**17. Defnyddio a hwylio cychod ac ati**

17.1 Ni chaiff neb, heb ganiatâd Anglian Water, lansio, ddefnyddio na hwylio unrhyw gwch ar unrhyw ddŵr mewn parc dŵr.

17.2 Ni chaiff neb ddefnyddio na hwylio unrhyw gwch ar unrhyw ddŵr mewn parc dŵr heb gydymffurfio â'r gofynion bioddiogelwch cyfredol y cytunwyd arnynt rhwng Anglian Water a Defra, gan ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr a thrwy hysbysiad a arddangosir mewn man amlwg neu a gyhoeddir drwy unrhyw ddull arall.

17.3 Ni chaiff neb ddefnyddio na hwylio unrhyw gwch ar unrhyw ddŵr mewn parc dŵr ac eithrio yn unol â'r telerau ac amodau a nodir mewn unrhyw ganiatâd o'r fath.

Ffynhonnell: https://anglianwaterparks.co.uk/sites/default/files/pdf/Confirmed-Waterparks-Byelaws-23-March-2015.pdf

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 6.** Cymal bioddiogelwch i'w gynnwys yn nhelerau ac amodau cytundebau angori

**BIODDIOGELWCH**

At ddibenion y cytundeb hwn, diffinnir tyfiant ar gyrff cychod fel croniad o organebau dyfrol (planhigion ac anifeiliaid) ar wyneb y cwch, y tu hwnt i haenen o lysnafedd.

Rhaid i chi sicrhau bod y cwch yn rhydd rhag tyfiant ar gorff y cwch cyn ei roi yn yr angorfa a thra ei fod yn cael ei gadw yno.

Os oes tyfiant yn bresennol ar gorff y cwch, rhaid i chi godi a glanhau'r gwch, gan atal unrhyw ddeunydd a dynnwyd rhag dychwelyd i'r dŵr. Rhaid i chi hysbysu'r cwmni a chytuno ar amserlen ar gyfer clirio'r cwch.

Os na chaiff y cwch ei lanhau o fewn yr amser hwn, mae'r cwmni'n cadw'r hawl i godi a glanhau'r cwch ar eich traul chi.

Pre-Consultation Draft

**Atodiad 7.** Rhestr o rywogaethau â blaenoriaeth yr ydym am eu cadw allan (nid yw'r rhan fwyaf yn bresennol ym Mhrydain Fawr eto ond mae rhai, ac nid ydym am ychwanegu at y niferoedd sy'n bresennol) ac y mae perygl y cânt eu cyflwyno trwy gychod. [Mae sgoriau effaith ar gyfer rhywogaethau dŵr croyw yn dod o: Gallardo, Belinda ac Aldridge, David (2013). Review of the ecological impact and invasion potential of Ponto Caspian invaders in Great Britain. Mae blaenoriaeth rhywogaethau morol yn seiliedig yn bennaf ar ganlyniadau sganio'r gorwel (Roy ac eraill, 2020, yn cael ei baratoi).]

*Rhywogaethau dŵr croyw a lled hallt*

| Blaenoriaeth | Enw Lladin | Enw cyffredin | Effaith | Blwyddyn y cyflwynwyd i Brydain Fawr | Yn eang eu gwasgariad? |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchel iawn | *Neogobius melanostomus* | Gobi crwn | 5 | | |
| | *Proterorhinus semiluaris* | Gobi trwynir dŵr croyw | 5 | | |
| | *Proterorhinus marmoratus* | Gobi trwynir | 5 | | |
| Uchel | *Neogobius gymnotrachelus* | Gobi chwim | 4 | | |
| | *Dreissena r. bugensis* | Cregen las ledresog | 5 | 2014 | Lleol iawn |
| | *Dikerogammarus villosus* | Berdysyn rheibus | 4 | 2010 | Lleol iawn |
| | *Myriophyllum heterophyllum* | Myrdd-ddail amrywiol | - | 2015 | Lleol iawn |
| | *Ludwigia peploides* | Briallen y dŵr | - | | |
| Canolig | *Echinogammarus ischnus* | | 3 | | |
| | *Echinogammarus trichiatus* | | 3 | | |
| | *Dikerogammarus bispinosus* | | 3 | | |
| | *Limnomysis benedeni* | | 3 | | |
| | *Obesogammarus crassus* | | 3 | | |
| | *Pontogammarus robustoides* | | 3 | | |
| | *Hypania invalida* | | 3 | 2008 | Lleol |
| | *Chelicorophium robustum* | | 3 | | |
| | *Chelicorophium sowinskyi* | | 3 | | |
| | *Alternaterna philoxeroides* | | - | | |

*Rhywogaethau morol*

| Blaenoriaeth | Enw Lladin | Enw cyffredin |
|---|---|---|
| Uchel ac uchel iawn | *Amffibalanus reticulatus* | Gŵydd fôr |
| | *Asterias amurensis* | Seren fôr Gogledd y Môr Tawel |
| | *Caulerpa racemose* | Grawnwin y môr |
| | *Ciona savignyi* | Chwistrell fôr |
| | *Didemnum vexillum* | Chwistrell fôr garped |
| | *Dyspanopeus sayi* | Lleidgranc Say |
| | *Echinogammarus ischnus* | Berdysyn draenog moel |
| | *Geukensia demissa* | Marchfisglen resog |
| | *Megabalanus coccopoma* | Gŵydd fôr mes titan |
| | *Megabalanus coccopoma* | Gŵydd fôr mes titan / gŵydd fôr fawr binc |

| | | |
|---|---|---|
| | *Megabalanus tintinnabulum* | Tiwlip y môr |
| | *Megabalanus zebra* | Gŵydd fôr |
| | *Polysiphonia subtilissima* | Algâu coch |
| | *Pseudochattonella verruculosa* | Alga |
| | *Rapana venosa* | Cragen foch gwythiennau rapa |
| | *Styela plicata* | Tiwnigog crych |
| Canolig | *Alexandrium catenella* | Dinofflangellog |
| | *Asterias amurensis* | Seren fôr gwaelod gwastad |
| | *Rapana venosa* | Cragen foch gwythiennau rapa |
| | *Rhopilema nomadica* | Slefren fôr nomadaidd |

Pre-Consultation Draft